






# ATODIAD 2 - HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD

---

# PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD














# Herio a Chefnogi Perfformiad PP/YGC

Cyfnod Amser: 1 Ebrill - 30 Medi 2025

**29**
Mesuryddion

**0%**
% Coch

**37.9%**
% Ambr

**62.1%**
% Gwyrdd

- Mesurau Adrannol
- Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd
- Gwasanaeth Goleuo Stryd
- Gwasanaeth Fflyd
- Gwasanaeth Edrychiad Stryd a TCC
- Gwasanaeth Asedau Bwrdeistrefol
- Gwasanaeth Adeiladu ac Isadeiledd (YGC)
- Gwasanaeth Busnes a Chyflawni Prosiect (YGC)
- Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd (YGC)
- Gwasanaeth Dechnegol (YGC)

**PP01 – Adrannol**

Canran staff wedi cwblhau teitlau mandadol

**59.0%**

**PP02 – Adrannol**

Canran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi ateb o fewn 20 diwrnod

**96.4%**

**PP03 – Adrannol**

Nifer Dyddiau Salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser

**4.62 dydd**

**PP04 – Adrannol**

Canran Staff wedi cwblhau'r Asesiad Iaith

**95.6%**

**PP05 – Cynnal Priffyrdd**

Nifer y diffygion critigol

**180**

**PP06 – Cynnal Priffyrdd**

Nifer y diffygion diogelwch

**1,839**

**PP07 – Cynnal Priffyrdd**

Nifer y dyddiau cyfartalog i gwblhau cwyn am dwll yn y ffordd

**7.47 dydd**

**PP08 – Cynnal Priffyrdd**

Canran ein ffyrdd dosbarth A,B a C sydd mewn cyflwr da (dim diffygion)

**53.7%**

**PP09 – Gwasanaeth Goleuo**

Nifer y dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd

**2.5 dydd**

**PP10 – Gwasanaeth Goleuo**

Defnydd Egni Lampau Stryd

**Ar drac**

**PP11 – Gwasanaeth Goleuo**

Canran Rhaglen Archwilio wedi ei chwblhau

**51.0%**

**PP12 – Rheolaeth Fflyd**

Cyfanswm Fflyd y Cyngor

**538 cerbyd**

**PP13 – Rheolaeth Fflyd**

Canran cerbydau "gwyrdd" yn fflyd y Cyngor

**39.0%**

**PP14 – Rheolaeth Fflyd**

Defnydd Tanwydd

**Monitro**

**PP15 – Rheolaeth Fflyd**

Canran ceisiadau gwaith wedi ateb o fewn 1 awr

**80.0%**

**PP16 – Edrychiad Stryd**

Nifer achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o boblogaeth Gwynedd

**1.6 achos**

**PP17 – Edrychiad Stryd**

Nifer dyddiau ar gyfartaledd i ymateb i gais "Baw Cŵn"

**7.79 dydd**

**PP18 – Edrychiad Stryd**

Canran Hysbysiadau Cosb Penodedig wedi cael eu talu

**77.0%**

**PP19 – Edrychiad Stryd**

Nifer ceisiadau am waith i'r Tim Tacluso 'Ardal Ni'

**512 cais**

**PP20 – Toiledau Cyhoeddus**

Nifer dyddiau ar gyfartaledd i ymateb i ymholiad/cwyn "Toiledau Cyhoeddus"

**5.76 dydd**

**PP21 – Toiledau Cyhoeddus**

Nifer ceisiadau fesul safle

**2.2 cais**

**YGC22 – Adeiladu ac Isadeiledd**

Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu

**Monitro**

**YGC23 – Busnes a Chyflawni Prosiect**

Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

**Ar drac**

**YGC24 – Busnes a Chyflawni Prosiect**

Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer

**Sgôr o 9**

**YGC25 – Dŵr ac Amgylchedd**

Rhaglen Archwilio Asedau Rheoli Risg Llifogydd

**Ar drac**

**YGC26 – Dŵr ac Amgylchedd**

Canran ceisiadau SDC wedi ateb o fewn y targed o 49 dydd

**90.0%**

**YGC27 – Dŵr ac Amgylchedd**

Nifer Cynlluniau Llifogydd wedi cwblhau

**Ar drac**

**YGC28 – Gwasanaeth Dechnegol**

Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu well (BCI Critigol)

**68.0%**


**YGC29 – Gwasanaeth Dechnegol**

Canran o'r archwiliadau wedi eu cwblhau

**67.1%**

# Adrannol - Teitlau Mandadol

**Canran staff Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC wedi cwblhau Teitlau Mandadol**




**Rheolwr Cyfrifol:**

Steffan Jones (Pennaeth Adran)

**PP-01** – Canran staff wedi cwblhau teitlau mandadol

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r graffiau yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi digwydd rhwng diwedd chwarter 1 a chwarter 2 yn y nifer o staff sydd wedi cwblhau'r teitlau mandadol o fewn yr Adran.

Mae gwaith wedi digwydd i annog staff i gwblhau'r teitlau cyn gynted a phosibl. Wedi dweud hyn mae heriau o ran y staff rheng flaen i gael mynediad at y modiwlau ar hunan wasanaeth gan nad oes ganddynt gyfeiriadau e-bost.

I oresgyn hyn mae'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd wedi trefnu bod sesiynau i'r gweithwyr rheng flaen ddod mewn a chwblhau'r teitlau. Mae'r gwaith yma wedi derbyn canmoliaeth gan yr Uned Dysgu a Datblygu ac yn cael ei annog fel ymarfer da y dylai adrannau eraill ei efelychu.

Mae gwaith rwan yn dechrau gyda'r gweithwyr ffordd a'r gobaith ydi bydd y ganran yn cynyddu eto erbyn y trydydd chwarter.

Mae wythfed teitl mandadol bellach a bydd ystadegau yr un yma – "Rhyddid Gwybodaeth" yn cael ei ychwanegu ar gyfer yr adroddiad perfformiad nesaf.

# Adrannol - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Cyfanswm nifer ceisiadau hyd at ddiwedd **Chw 2**

57

Nifer atebwyd ar amser

55

Nifer atebwyd yn hwyr

2

Canran ceisiadau atebwyd mewn amser

96.4%

*Nodyn : Niferoedd ddim yn cynnwys ceisiadau mae'r Adran yn eu hateb fel rhan o gais traws-adrannol*

**Rheolwr Cyfrifol:**

Steffan Jones (Pennaeth Adran)

**PP-02 –** Canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth wedi eu hateb o fewn 20 dydd

**Trosolwg o berfformiad:**

Yn ystod Chwarter 1 cafodd yr Adran 24 cais rhyddid gwybodaeth ac atebwyd 22 o fewn yr 20 dydd sydd yn cyfateb i **91.7%**. Roedd y ddau gais hwyr wedi cael eu hateb ddau ddiwrnod yn hwyr.

Yn ystod Chwarter 2 cafodd yr Adran 33 cais rhyddid gwybodaeth ac atebwyd 33 o fewn yr 20 dydd sydd yn cyfateb i **100.0%**.


Felly mae'r perfformiad wedi gwella rhwng y ddau chwarter ac mae'r ganran ateb o fewn 20 dydd yn **96.4%** ar gyfer y flwyddyn hyd yma.

Mae perfformiad yr adran ar gyfer y ddau chwarter cyntaf yn sicr wedi gwella o'r perfformiad ar gyfer 2024/25 pan lwyddwyd i ateb **87.9%** yn unig o'r ceisiadau o fewn yr 20 dydd.

Mae'r Adran hefyd wedi sefydlu trefn tracio newydd ar gyfer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gobeithir y bydd hyn yn helpu ni i gadw'r ganran ateb yn uchel ar gyfer 2025/26.

Bu i'r Adran dderbyn cyflwyniad gan y Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth yn ein cyfarfod Rheolwyr diwedd Medi.

# Adrannol - Nifer Dyddiau Salwch




**Rheolwr Cyfrifol:**

Steffan Jones (Pennaeth Adran)

**PP-03** - Nifer Dyddiau Salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r ffigyrau yma yn adlewyrchu'r cyfnod rhwng Ebrill ac Awst. Mae lefelau salwch eleni yn uwch nac oeddynt ar gyfer yr un adeg llynedd.

Wedi dweud hyn mae ffigyrau'r Adran eleni yn dilyn patrwm hynod o debyg i'r un ar gyfer y Cyngor cyfan.

Ffigwr ar gyfer y Cyngor cyfan erbyn diwedd Awst oedd 4.43 dydd, felly perfformiad yr Adran ychydig yn waeth ar 4.62.


Mae'r Adran wedi cael nifer o achosion salwch hir-dymor eleni sydd yn gwthio ein nifer dyddiau cyfartalog i fyny.

Gwaith wedi ei wneud i adnabod strwythur Adran gwell ar System Swyddi a bydd yr haenau newydd ar gael i edrych ym mha wasanaethau mae lefelau salwch yn uwch na'i gilydd.


# Adrannol – Hunan Asesiad Iaith

| Cyfanswm Staff | Hunanasesiad | Asesiad Rheolwr | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 433 | 265 | 149 | 414 |
| Heb Asesiad 19 | 61.2% | 34.4% | 95.6% |

**Lefel Cyfartalog**




**Nifer staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd (ddim yn cynnwys rhai heb asesiad)**




**Rheolwr Cyfrifol:**

Steffan Jones (Pennaeth Adran)

**PP-04** - Canran Staff wedi cwblhau'r Asesiad Iaith


**Trosolwg o berfformiad:**


- Mae'r Adran yn cyflogi 433 o staff.
- Mae 265 o'r staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad Iaith sef 61.2%.
- Ar gyfer 149 pellach o'r gweithlu (rheng flaen), mae'r rheolwyr llinell wedi cwblhau asesiad ar eu rhan.
- Mae hyn yn gadael 19 sydd heb asesiad iaith o gwbl.
- Mae 96.9% o'r staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.
- Mae 13 aelod o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. O rhain mae 2 yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd.

Rydym yn cefnogi ein staff i fynychu hyfforddiant perthnasol, gweler isod gofnod o'r niferoedd sydd wedi dilyn hyfforddiant eleni.

1 x Cwrs Mynediad 2
1 x Cwrs Canolradd 2 – Dysgu Cymru
1 x Cwrs 'Defnyddio' Cymraeg Gwaith Uwch – Nant Gwrtheyrn
1 x Cwrs Magu Hyder

# Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd (Diffygion Critigol)




**Rheolwr Cyfrifol:**

Gareth Roberts (Peiriannydd Ardal Dwyfor)

**PP-05** – Nifer y diffygion critigol

**Pwrpas y gwasanaeth:**

Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddirwystr

**Trosolwg o berfformiad:**


**Diffyg Critigol:** Y targed ymateb i'r math yma o ddiffyg ydi o fewn 2 awr.

Mae diffyg critigol yn sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i fod angen sylw ar unwaith


Erbyn mis Medi eleni roedd cyfanswm o 180 diffyg critigol sydd 35 yn llai na'r 215 ar gyfer yr un cyfnod llynedd.

# Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd (Diffygion Diogelwch)

## Niferoedd Diffygion Diogelwch




## Diffygion Diogelwch fesul Ardal 2025-26




**Rheolwr Cyfrifol:**

Gareth Roberts (Peiriannydd Ardal Dwyfor)

**PP-06** – Nifer y diffygion diogelwch

**Pwrpas y gwasanaeth:**

Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddirwystr


**Trosolwg o berfformiad:**

**Diffyg Diogelwch**: Ymateb cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Mae diffyg diogelwch yn geisiadau am wasanaeth neu ddiffygion sy'n gofyn am ymateb cyn gynted â phosib er mwyn cael gwared ar risg bosib o anaf i ddefnyddwyr.

Erbyn mis Medi eleni roedd cyfanswm o 1,839 diffyg diogelwch sydd oddeutu 12% yn llai na'r 2,092 ar gyfer yr un cyfnod llynedd.

# Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd (Cyflwr Ffyrdd)




**Cyfnod = 1/4/25 – 30/9/25**

| Cyfartaledd dyddiau ymateb i'r cwsmer | Cyfartaledd dyddiau cwblhau ymholiad/cwyn |
|---|---|
| **5.97** | **7.47 **** |

**Rheolwyr Cyfrifol:**

Adrian Wyn Williams (Peiriannydd Ardal Meirionnydd)

**PP-07** - Nifer y dyddiau cyfartalog i gwblhau cwyn am dwll yn y ffordd

**Pwrpas y gwasanaeth:**

Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr


**Trosolwg o berfformiad:**

- Mae'r graff llinell yn cymharu'r niferoedd o gwynion "twll mewn ffordd" sydd wedi eu derbyn drwy system FFOS.
- Mae nifer y cwynion sydd wedi eu derbyn eleni wedi gostwng - 276 hyd at ddiwedd Medi o'i gymharu â 439 yn yr un cyfnod yn 2024/25.
- Rhwng Ebrill a Medi eleni roedd cyfartaledd dyddiau ymateb i'r cwsmer yn 5.97 dydd a cyfartaledd y dyddiau i gwblhau'r ymholiad yn 7.47 dydd.


**Mae'r cyfartaledd nifer dyddiau ymateb yn cynnwys pob categori diffyg; hynny yw – byddai trefn ymateb yn gallu amrywio yn ddibynnol ar y diffyg.

# Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd (Cyflwr Ffyrdd)


| Cyflwr Ffyrdd Dosbarth A | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Gwyrdd** | **Ambr** | **Coch** |
| 2021/22 | 76.8% | 20.8% | 2.4% |
| 2022/23 | 77.9% | 19.8% | 2.3% |
| 2023/24 | 79.0% | 19.0% | 2.0% |
| 2024/25 | 65.9% | 29.1% | 5.1% |




| Cyflwr Ffyrdd Dosbarth B | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Gwyrdd** | **Ambr** | **Coch** |
| 2021/22 | 75.0% | 23.0% | 2.0% |
| 2022/23 | 74.3% | 23.3% | 2.4% |
| 2023/24 | 75.0% | 23.0% | 2.0% |
| 2024/25 | 60.5% | 32.6% | 6.9% |




| Cyflwr Ffyrdd Dosbarth C | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Gwyrdd** | **Ambr** | **Coch** |
| 2021/22 | 51.3% | 39.1% | 9.6% |
| 2022/23 | 52.8% | 39.0% | 8.3% |
| 2023/24 | 51.4% | 39.1% | 9.5% |
| 2024/25 | 46.6% | 40.4% | 13.1% |




**Rheolwr Cyfrifol:** Ian Morgan (Peiriannydd Ardal Arfon)

**PP-08** – Canran ein ffyrdd dosbarth A,B a C sydd mewn cyflwr da

**Pwrpas y gwasanaeth:**

Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddirwystr

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r graffiau yn dangos canlyniadau profion technegol ar ein ffyrdd Dosbarth A, B a C gyda'r canlyniadau yn cael eu mynegi mewn canrannau yn y tablau cyfochrog. Llywodraeth Cymru sydd cynnal yr archwiliadau hyn drwy Gymru.

Gwyrdd = Ffordd, yn gyffredinol, mewn cyflwr da, dim diffygion angen archwiliadau pellach.

Melyn = Ffordd yn arddangos diffygion angen archwiliad yn fuan i adnabod gwaith trwsio addas


Coch = Cyflwr yn ffordd yn gyffredinol wael a bydd yn debygol o fod angen gwaith cynnal arfaethedig yn fuan.

Fe welwch bod canrannau ein ffyrdd o fewn y melyn a'r coch yn cynyddu er y buddsoddiad cyfalaf mae'r Cyngor wedi ei wneud ynddynt dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ffyrdd Dosbarth A, B a C yn cynrychioli 52% o'r rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus o fewn Gwynedd, sef 1,447km. Mae'r gweddill o'r rhwydwaith (1,345km), ffyrdd Di-ddosbarth sydd ddim yn derbyn archwiliadau technegol o gwbl. Felly does dim gwybodaeth technegol cyfredol ar gyfer 48% o'n rhwydwaith ffyrdd yn Gwynedd.

Yn hanesyddol dim ond gwybodaeth o ganlyniad i'r archwiliadau diogelwch oedd gan y Gwasanaeth fel cofnod o gyflwr ein ffyrdd Di-ddosbarth. Ond blwyddyn diwethaf bu i'r Gwasanaeth dreialu system sydd yn defnyddio technoleg "AI" i ddadansoddi gwybodaeth gafodd ei gasglu gan gymryd fideo o'r ffyrdd wrth i'r arolygwr gynnal archwiliad. O ganlyniad mae darlun fwy cyflawn o gyflwr ein rhwydwaith gan y peirianwyr er mwyn gosod rhaglenni gwaith cynnal.

# Gwasanaeth Goleuo Stryd




**<u>Rheolwr Cyfrifol:</u>**
Colin Worth (Rheolwr Gwasanaeth Goleuo)

**<u>PP-09</u>** - Nifer y dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd


**<u>Pwrpas y gwasanaeth:</u>**
Cynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion gyda golau a safleoedd goleuadau traffig drwy Wynedd gyfan i alluogi'r cyhoedd i deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus y Sir.

**<u>Trosolwg o berfformiad:</u>**
Hyd at ddiwedd Medi, roedd yr amser ar gyfartaledd i atgyweirio lampau stryd yn 2.5 diwrnod.

Targed y gwasanaeth ydi 5 diwrnod.

# Gwasanaeth Goleuo Stryd

## Defnydd Egni Lampau Stryd (KWH)



| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2024/25 | 176,760 | 147,845 | 125,095 | 137,518 | 163,319 | 193,361 | 239,150 | 266,697 | 292,786 | 293,070 | 237,254 | 220,294 |
| 2025/26 | 174,989 | 143,542 | 123,238 | 135,424 | 165,882 | 199,652 | | | | | | |

2024/25 2025/26

**<u>Rheolwr Cyfrifol:</u>**

Colin Worth (Rheolwr Gwasanaeth Goleuo)

**<u>PP-10</u>** - Defnydd Egni Lampau Stryd

**<u>Pwrpas y gwasanaeth:</u>**

Cynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion gyda golau a safleoedd goleuadau traffig drwy Wynedd gyfan i alluogi'r cyhoedd i deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus y Sir.


**<u>Trosolwg o berfformiad:</u>**

Defnydd egni goleuadau stryd ac arwyddion ffyrdd yn eithaf sefydlog fel y disgwylir yn y cyfnod dan sylw. Mi fydd y defnydd yn codi o'r adeg yma dros gyfnod y gaeaf fel arfer.

Ers mabwysiadu y cyn gefnffordd mae nifer sylweddol o asedau goleuo stryd wedi trosglwyddo i'n meddiant ni.

# Gwasanaeth Goleuo Stryd

| | Nifer Colofnau angen archwiliad | Wedi cwblhau | % cwblhau |
|---|---|---|---|
| Arfon | 1,243 | 1,243 | 100% |
| Dwyfor | 742 | 0 | 0% |
| Meirionnydd | 461 | 0 | 0% |
| | **2,446** | **1,243** | **51%** |




**Rheolwr Cyfrifol:**

Colin Worth (Rheolwr Gwasanaeth Goleuo)

**PP-11** - Canran Rhaglen Archwilio wedi ei chwblhau

**Pwrpas y gwasanaeth:**

Cynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion gyda golau a safleoedd goleuadau traffig drwy Wynedd gyfan i alluogi'r cyhoedd i deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus y Sir.


**Trosolwg o berfformiad:**

Yn ystod 2025/26 mae angen archwilio 2,446 o golofnau.

Hyd yma mae archwiliadau Arfon wedi eu cwblhau a bydd archwiliadau Dwyfor a Meirionnydd yn dechrau yn fuan.

O'r 1,243 archwiliad yn Arfon cafodd 25 diffyg ei adnabod.

# Gwasanaeth Fflyd




| Adran | Cyfanswm | Wedi ariannu | Heb ariannu | Wedi adnewyddu | Hurio |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | **240** | 191 | 7 | 14 | 28 |
| Amgylchedd | **147** | 103 | 2 | 17 | 25 |
| Addysg | **43** | 9 | 30 | 1 | 3 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | **37** | 25 | 9 | 1 | 2 |
| Tai ac Eiddo | **27** | 25 | 0 | 2 | 0 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | **23** | 4 | 16 | 3 | 0 |
| Economi a Chymuned | **14** | 10 | 3 | 1 | 0 |
| Cyllid | **6** | 0 | 4 | 1 | 1 |
| Tim Arweinyddiaeth a Cyfreithiol | **1** | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **538** | **368** | **71** | **40** | **59** |

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**PP-12** – Cyfanswm Fflyd y CYngor


**Pwrpas y gwasanaeth:**
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Trosolwg o berfformiad:**

Gwybodaeth yma i roi cyd-destun ar sefyllfa fflyd y Cyngor yn ei gyfanrwydd, yn bennaf wrth ystyried goblygiadau ariannol i adnewyddu y cerbydau. Erbyn hyn mae:-

- 538 o gerbydau yn rhan o Fflyd y Cyngor, gyda 68.4% wedi eu gosod ar gynlluniau ariannu i'r dyfodol.
- 71 (13.2%) yn cael eu hunan gyllido o fewn gwasanaethau.
- 40 (7.4%) o gerbydau yn parhau yn rhan o'r Fflyd er bod cerbyd newydd wedi ei ddarparu.
- 59 (11.0%) o gerbydau wedi eu hurio gan wasanaethau'r Cyngor.

# Gwasanaeth Fflyd




| Gwasanaeth | Petrol Hybrid | Trydan | "ICE" | Cyfanswm | % Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Bwrdeistrefol | - | 4 | 8 | 12 | 33.3% |
| Cynnal Tiroedd | - | 1 | 3 | 4 | 25.0% |
| Gwasanaeth Fflyd | - | 5 | 3 | 8 | 62.5% |
| Gwasanaeth Goleuo | 2 | 1 | 1 | 4 | 75.0% |
| Gwasanaethau Edrychiad Stryd | - | 10 | 5 | 15 | 66.7% |
| Gwywiad yr Onnen | - | - | 1 | 1 | 0.0% |
| Priffyrdd | - | 6 | 10 | 16 | 37.5% |
| YGC | 1 | 4 | 13 | 18 | 27.8% |
| **Cyfanswm PP/YGC** | **3** | **31** | **44** | **78** | **43.6%** |

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**PP-13** – Canran cerbydau "gwyrdd" yn Fflyd y Cyngor

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Trosolwg o berfformiad:**

Mesur i ddangos beth ydi sefyllfa'r Cyngor o ran symud i gerbydau gwyrdd.

CYNGOR CYFAN


- 88 (39%) o'r 227 car neu fan bellach yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
- O'r 139 o gerbydau disel/petrol sydd yn weddill mae 57 ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi eu hadnewyddu a'u cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi eu hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.

ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

- Mae 34 (44%) o'r 78 car neu fan yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
- O'r 44 cerbyd disel/petrol sydd yn weddill mae 26 (59%) ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi eu hadnewyddu a'u cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi eu hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.

# Gwasanaeth Fflyd

**Rheolaeth Fflyd: Defnydd Tanwydd (ltr)**



| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | 121894 | 136015 | 142387 | 130698 | 133957 | 126029 | 140220 | 143572 | 118292 | 158069 | 139201 | 135262 |
| 2024/25 | 139591 | 148549 | 143263 | 150910 | 133828 | 130256 | 143969 | 137007 | 117262 | 164229 | 129458 | 131468 |
| 2025/26 | 129268 | 132256 | 137121 | 147970 | 125059 | 131204 | | | | | | |

2023/24 2024/25 2025/26

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)


**PP-14** – Defnydd Tanwydd

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Trosolwg o berfformiad:**

- Er i ni weld cynnydd o 0.7% yn ein defnydd o danwydd yn ystod mis Medi eleni o gymharu â mis Medi llynedd rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol ers mis Mai.
- Wrth gymharu y 6 mis diwethaf (Ebrill i Medi 2025) a'r un cyfnod yn ystod 2024, rydym yn gweld gostyngiad o 5.4% yn ein defnydd o danwydd.
- Dros y 12 mis diwethaf (Hydref 24 i Medi 25) o gymharu a'r 12 mis blaenorol (Hydref 23 i Medi 24) rydym wedi gweld gostyngiad o 3.3% yn ein defnydd o danwydd.
- Mewn litrau mae'r gostyngiad yma dros y 12 mis diwethaf o gymharu a'r un blaenorol yn 54,743 litr.

# Gwasanaeth Fflyd




Nifer Ceisiadau ers 1af Ebrill 2025

**65**

Canran wedi ateb o fewn awr

**80.0%**

**Rheolwr Cyfrifol:**

Kev Sheret (Rheolwr Fflyd)

**PP-15** - Canran ceisiadau wedi ateb o fewn y targed

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

**Trosolwg o berfformiad:**

Yma dangosir nifer y munudau mae'r gwasanaeth yn gymryd i gwblhau cais am wasanaeth.


Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau i gael:


- Hurio cerbydau
- Mynediad i danwydd
- Ychwanegu gyrwyr i'r gofrestr
- Ceisiadau hyfforddiant
- Mynediad i systemau Fflyd


Mae gennym darged i gwblhau rhain o fewn 1 awr o dderbyn y cais.

Rhwng Ebrill a Medi eleni rydym wedi llwyddo i gwblhau 80% o'r ceisiadau o fewn yr awr.

# Gwasanaethau Stryd (Tipio Anghyfreithlon)




**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)

**PP-16** - Nifer achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o boblogaeth Gwynedd

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r nifer o achosion eleni yn parhau yn gymharol â nferoedd y llynedd. Mewn cyfanswm hyd at ddiwedd Medi mae 33 achos yn llai eleni o'i gymharu a'r un cyfnod llynedd.

Mae'r ail graff yn edrych ar y niferoedd fesul ardal yng Ngwynedd. I gael cymhariaeth fwy teg mae angen edrych ar niferoedd fesul 1,000 o boblogaeth yr ardaloedd.

Arfon = 2.0 achos fesul 1,000 o'r boblogaeth


Dwyfor = 1.6

Meirionnydd = 1.0

Gwynedd = 1.6

Mae'r map yn dangos lleoliad yr achosion a bydd gwaith yn digwydd i edrych ar y lleoliadau er mwyn llywio ble mae angen cynnal ymgyrchoedd.

# Gwasanaethau Stryd (Baw Ci)




**Cyfnod = 1/4/25 – 30/9/25**

Cyfartaledd dyddiau ymateb i'r cwsmer
**7.12**

Cyfartaledd dyddiau cwblhau ymholiad/cwyn
**7.79**

**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)

**PP-17** - Nifer dyddiau ar gyfartaledd i ymateb i ymholiad/cwyn "Baw Cŵn"

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.

**Trosolwg o berfformiad:**

Fe welwch o'r graff fod y nifer o ymholiadau Baw Cŵn yn is ar y cyfan i'w gymharu â'r un cyfnod llynedd – 47 yn llai.

Wedi dweud hynny mae nifer yr ymholiadau i weld wedi cynyddu dros fisoedd Awst a Medi eleni.

Mae'r amser cwblhau ymholiad yn 7.79 dydd ar gyfartaledd.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond elfen o'r ymholiadau sy'n ymwneud â achosion o faw cŵn. Dyma gymharu nifer dyddiau ymateb fesul math o ymholiad

Baw ci = 1.83 dydd


Baw Ci gorfodaeth stryd = 19.63 dydd


Biniau Baw Ci = 2.17 dydd

Biniau Baw Ci Adnewyddu = 14.55 dydd

Holl gwynion Baw Cŵn = 7.79 dydd

# Gwasanaethau Stryd (Hysbysiadau Cosb)




| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 (hyd at ddiwedd Medi) |
|---|---|---|---|
| Wedi cael eu talu | 72.2% | 71.0% | 77.0% |
| Wedi cael eu canslo | 25.0% | 26.6% | 11.5% |
| Achosion Llys | 2.8% | 1.6% | 0.0% |
| Heb gael eu talu | 0.0% | 0.8% | 11.5% |
| | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)

**PP-18** - Canran Hysbysiadau Cosb Penodedig wedi cael eu talu

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darpariaeth o strydoedd a thiroedd cyhoeddus glan a thaclus.

**Trosolwg o berfformiad:**

Erbyn diwedd Medi 2025 roedd y nifer HCB yn 87, sydd un yn llai nac ar gyfer yr un cyfnod llynedd sef 88.

Wedi dweud hynny mae nifer y HCB ar gyfer troseddau cŵn wedi cynyddu eleni o'i gymharu â llynedd gyda 18 ar ôl 6 mis o'i gymharu â 20 am flwyddyn gyfan llynedd.


Mae tipyn mwy o HCB ar gyfer posteri anghyfreithlon wedi eu cyflwyno eleni hefyd.

Hyd at ddiwedd Medi eleni mae 77% o'r HCB wedi cael eu talu. Mae hyn yn well na perfformiad y ddwy flynedd flaenorol oedd gyda canran o 72% a 71%.


# Gwasanaethau Stryd (Tîm Tacluso)

Tîm Tacluso Ardal Ni

## Ceisiadau am Waith




## MATH O WAITH (01/04/25-30/09/25)




**Rheolwr Cyfrifol:**
Steven Edwards
(Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd)

**PP-19** - Nifer ceisiadau am waith i'r Tim Tacluso 'Ardal Ni'

**Pwrpas y gwasanaeth:**


- Hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig oddi fewn i ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, trwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus, e.e. ffyrdd, strydoedd, parciau, promenadau, a.y.b.
- Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol wrth fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.

**Trosolwg o berfformiad:**

Fe welwch o'r graff enghreifftiau o'r ceisiadau am waith sydd yn cyrraedd y Tîm Ardal Ni.

Mae'r ceisiadau yn amrywiol yn ddibynnol ar yr ardal ac hefyd a'r y tymor tyfu. Mae hyn yn glir i'w weld yn y graff y tro hwn, gyda canran uchaf y ceisiadau yn cyfeirio at drin chwyn.

# Toiledau Cyhoeddus (Amser ymateb)




Cyfnod = 1/4/25 – 30/9/25

Cyfartaledd dyddiau ymateb i'r cwsmer
**5.70**

Cyfartaledd dyddiau cwblhau ymholiad/cwyn
**5.76**

**Rheolwr Cyfrifol:**
Amanda Murray (Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol)

**PP-20** - Nifer dyddiau ar gyfartaledd i ymateb i ymholiad/cwyn "Toiledau Cyhoeddus"

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darparu cyfleusterau glan a diogel i drigolion/ymwelwyr Gwynedd (60 o safleoedd).

**Trosolwg o berfformiad:**


Derbyniodd y gwasanaeth gyfanswm o 130 o ymholiadau hyd ddiwedd Chwarter 2. Mae hyn yn gynnydd o'r 98 dderbyniwyd am yr un cyfnod llynedd.


Cymerwyd 5.76 dydd ar gyfartaledd i gau ymholiad.

Mae natur y cwynion yn amrywio yn fawr o holi am oriau agor i gwynion am gyfarpar wedi malu neu wedi ei ddifrodi. Gall yr amser ymateb felly amrywio yn fawr.

Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i wella'r perfformiad yn ystod y tymor tawel wrth ymgymryd â gwaith angenrheidiol i'r toiledau ac i drefnu glanhau dwfn.

# Toiledau Cyhoeddus (Fesul Ardal)




| Cwynion fesul nifer safleoedd | Arfon | Dwyfor | Meirionnydd |
|---|---|---|---|
| Ebr-25 | 0.27 | 0.45 | 0.30 |
| Mai-25 | 0.73 | 0.27 | 0.15 |
| Meh-25 | 0.55 | 0.18 | 0.11 |
| Gor-25 | 0.27 | 0.18 | 0.37 |
| Awst-25 | 0.27 | 0.27 | 0.48 |
| Medi-25 | 0.36 | 0.32 | 0.11 |
| **Cyfanswm** | **2.45** | **1.68** | **1.58** |

**Rheolwr Cyfrifol:** Amanda Murray (Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol)

**PP-21** – Nifer ceisiadau fesul safle

**Pwrpas y gwasanaeth:**
Darparu cyfleusterau glan a diogel i drigolion/ymwelwyr Gwynedd (60 o safleoedd).

**Trosolwg o berfformiad:**

Rhwng Ebrill a Medi mae'r gwasanaeth wedi derbyn 130 o ymholiadau / cwynion.

- Arfon = 27
- Dwyfor = 37
- Meirionnydd = 41
- Lle nad oes lleoliad wedi nodi = 25

Wrth edrych ar y nifer cwynion fesul safle gweler bod y nifer cwynion yn uwch fesul safle yn Arfon gyda 2.45 cwyn fesul safle.

Roedd cwynion yn Arfon yn uwch yn ystod y cyfnod yma oherwydd un digwyddiad oedd wedi cael ei adrodd gan sawl unigolyn am yr un broblem.


Mae nifer cwynion Dwyfor a Meirionnydd fesul safle yn eithaf cyson o tua 1.6 cwyn fesul safle.

Y ffigwr ar gyfer Gwynedd gyfan ydi 2.2 cwyn fesul safle.

Mae natur y cwynion yn amrywiol iawn ond gellir adrodd bod oddeutu chwarter yr ymholiadau yn ymwneud â oriau agor a tua 20% arall yn ymwneud â glendid y toiledau.

# Cwrdd â tharged ariannol yr uned Adeiladu YGC

Cymhariaeth Misol (Adeiladu)




| | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Mawrth (Mis 13) Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | -£6,871 | -£6,875 | -£6,901 | -£6,083 | -£5,967 | -£2,386 | -£668 | -£501 | £7,423 | £6,231 | £11,233 | £19,198 |
| 2023-24 | -£56,268 | -£14,360 | -£31,157 | -£30,784 | -£68,828 | £14,334 | £14,563 | £11,417 | £12,444 | £13,506 | £14,852 | £13,142 |
| 2024-25 | -£28,890 | -£28,890 | -£30,000 | -£24,744 | -£25,032 | -£24,495 | -£25,542 | -£25,809 | -£6,354 | £224 | £1,194 | -£1,551 |
| 2025-26 | -£34,909 | -£4,582 | £15,488 | -£12,413 | | | | | | | | |

*Blynyddoedd / Misoedd*

2022-23 2023-24 2024-25 2025-26

**Rheolwr Cyfrifol: - Gareth Lloyd Wright**

**YGC-22** - Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal gwasanaeth o safon uchel i Gwsmeriaid Uned Adeiladu YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd a gofynion y cwsmer i alluogi'r Gwasanaeth i gyrraedd y targed incwm blynyddol.

**Trosolwg o Berfformiad:**


Mae perfformiad y timau yn dda ar eu prosiectau ond mae risg wedi ei adnabod yn dilyn gostyngiad yn rhaglen waith Cynnal a Chadw yr Adran Eiddo. Roedd y bwlch yn y tymor byr wedi ei lenwi yn bennaf gyda gwaith 'Cyflwr ac Addasrwydd Ysgolion' gan yr Adran Eiddo ac Addysg, ond mae'r angen yn parhau i rhoi cynlluniau hir dymor mewn lle wrth ymgynghori gyda'r Adran Tai ac Eiddo. Bydd hyn yn allweddol wrth ystyried unrhyw fuddsoddiad mewn denu gwaith o du allan i'r Cyngor.

Cyfarfodydd buddiol gyda'r Adran Tai ac Eiddo wedi ei gynnal yn ddiweddar lle bu trafod gwaith ar y gorwel mewn perthynas ag Eiddo ond bydd angen trafodaethau pellach am cyfleon yn y sector Tai.

Targed 2025-26 yw £632K.

# Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

Cymhariaeth Misol (YGC)




| | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Mawrth (Mis 13) Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | £18,655 | £75,640 | £47,163 | £24,140 | £68,764 | £68,954 | £65,574 | £60,639 | £10,868 | £65,272 | £96,792 | £72,909 |
| 2023-24 | -£38,314 | -£38,314 | -£15,720 | -£16,172 | £6,091 | £8,023 | £9,603 | £29,053 | £121,435 | £163,655 | £108,824 | £68,149 |
| 2024-25 | -£108,959 | -£108,959 | -£69,999 | -£33,290 | -£49,072 | £10,100 | £19,904 | £13,640 | £76,346 | £111,243 | £125,210 | £233,746 |
| 2025-26 | -£62,624 | -£66,111 | £35,308 | £80,361 | | | | | | | | |

*Blynyddoedd / Misoedd*

2022-23 2023-24 2024-25 2025-26

**Rheolwr Cyfrifol: - Rhys Wynn Williams**

**YGC-23** Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal gwasanaeth o safon uchel i Gwsmeriaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer i alluogi YGC i gyrraedd y targed incwm blynyddol.


**Trosolwg o Berfformiad Llynedd:**

- Targed 2024-25 oedd £7.9 miliwn.
- Canlyniad diwedd y flwyddyn 2024-25 oedd £234K dros y targed.

**Trosolwg o Berfformiad Eleni:**

- Targed 2025-26 yw £8.2 miliwn.
- Mae proffil y gwaith sydd wedi ei raglennu at eleni yn gyson gyda phroffiliau'r blynyddoedd blaenorol.
- Ar hyn o bryd mae gwaith digonol ar gael gan ein prif cleientiaid am weddill y flwyddyn. Yn ogystal, rydym yn parhau i ddarganfod a ennill ffrydiau gwaith newydd.
- Ar hyn o bryd ni weler risg o beidio â chyrraedd ein targed.

# Bodlonrwydd Cwsmer YGC




**<u>Rheolwr Cyfrifol: Sion Arwel Jones</u>**

**<u>YGC-24</u>** - Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer

**<u>Pwrpas:</u>**
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i Gwsmeriaid a Chleientiaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd a'i gofynion.

**<u>Trosolwg o Berfformiad:</u>**

**NMWTRA**
- 108 cynllun newydd wedi agor ers mis Mai

**Sifil**
- "Roedd yr holl ohebiaeth â thîm prosiect YGC yn gyflym ac yn effeithlon, a deliwyd â phroblemau yn gynnar."
- "Mae YGC wedi bod yn rhoi sylw priodol i'r project ac wedi gweithredu yn unol a'r rhaglen waith."

**Tai ac Eiddo**
- Dim sylw newydd

**SDC**
- Dim sylw newydd

# Rhaglen Archwilio a Cynnal a Chadw Asedau (Rheoli Risg Llifogydd)

| Cyflwr ased* | Nifer asedau | Rhaglen Refeniw | Rhaglen Cyfalaf | Dim Gweithred Bresennol |
|---|---|---|---|---|
| **5** | 25** | - | 23 | - |
| **4** | 10 | - | 3 | - |
| **3** | 80 | - | 4 | - |
| **2** | 69 | - | 0 | - |
| **1** | 6 | - | 0 | - |

* Derbyniol = 3 ac i lawr

** Cynnwys 16 groyne Bermo  sydd ddim ar raglen archwilio 2025

**Rheolwr Cyfrifol: Rob Williams**

**YGC-25** - Rhaglen Archwilio Asedau Rheoli Risg Llifogydd


**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal Rhaglen Cynnal a Chadw Asedau Arfordirol a Mewndirol y Sir mewn modd diogel ac amserol er mwyn lleihau risg llifogydd i trigolion Gwynedd. Mae 299 o asedau o dan rheolaeth y gwasanaeth sydd yn cynnwys 21km o asedau arfordirol

**Trosolwg o berfformiad:**

- Rydym yn y broses o gwblhau archwiliadau 2025.
- Disgwylir i'r holl archwiliadau gael eu cwblhau erbyn diwedd y mis.
- Yn dilyn hynny, bydd rhaglen waith cynnal a chadw yn cael ei pharatoi.
- Bydd y cyfarfod nesaf yn cynnwys diweddariad ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith hon.

# Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC)




Nifer Ceisiadau ers 1af Ebrill 2025

**20**

Canran wedi ateb o fewn 49 diwrnod

**90%**

**Rheolwyr Cyfrifol: - Rob Williams**

**YGC-26** - Canran ceisiadau SDC wedi ateb o fewn y targed o 49 dydd

**Pwrpas y Gwasanaeth:**
Adolygu ceisiadau SDS yn amserol, a sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn cwrdd a rheoliadau Llywodraeth Cymru. Amser statudol i cymeradwyon y cais wedi ei ddilysu yw 7 wythnos neu 49 diwrnod.

**Trosolwg o Berfformiad:**

Effaith ar Ddata Perfformiad – Mehefin & Gorffennaf

- Dau gais penodol achosodd cynnydd yn yr uchafswm ac felly'r cyfartaledd o ddyddiau i benderfynu ceisiadau.
- Yn y ddau achos, bu oedi sylweddol cyn derbyn gwybodaeth neu ddogfennau diwygiedig ar ôl yr adolygiad cychwynnol.
- O ganlyniad, ni ellid symud ymlaen â'r ceisiadau tan i'r wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno.

Camau Gweithredu

- Mae'r ymarfer gweithio wedi'i ddiweddaru.
- Ceisiadau heb wybodaeth ychwanegol o fewn yr amserlen gytunedig bellach yn cael eu gwrthod yn unol â'r broses newydd.

# Cynlluniau Llifogydd

| Cynllun | Disgrifiad | Statws |
|---|---|---|
| Prom Y Gogledd Abermaw (Dylunio) | Dyluniad Manwl ac Achos Busnes Llawn ar gyfer amddiffyn yr arfordir ar gyfer ardal gogledd Prom yn y Bermo | Parhau ar rhaglen |
| Groeslon (Dylunio) | Dyluniad Manwl gan gynnwys gwelliannau cwrs dŵr a cwlfert i lleihau'r risg o rwystrau yn y afon | Parhau ar rhaglen |
| Bontnewydd - Gwaith Dylunio | Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer mesurau lliniaru llifogydd Bontnewydd. | Rhaglen wedi llithro |
| Mynydd Llandegai FBC | Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer ystod o fesurau i leihau'r risg o lifogydd dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin. | Rhaglen wedi llithro |
| Cadnant Caernarfon Adeiladu | Uwchraddio sgrin ar cylfat Afon Cadnant, Caernarfon. | Wedi cwblhau |
| Waunfawr | Dyluniad Manwl i liniaru problemau llifogydd yng nghwlferau Cae'r Waun a Phant y Waun. | Parhau ar rhaglen |
| Gerddi Traphont Bermo | Amddiffyn yr arfordir ar gyfer ardal Gerddi Traphont Abermaw. Gan gynnwys morglawdd newydd, system dŵr wyneb ac amddiffyniad lefel eiddo | Parhau ar rhaglen |
| Hirael FAS - Adeiladu | Gwaith adeiladu amddiffynfeydd arfordirol wedi cychwyn ers Mai 2023. | Rhaglen wedi llithro |

**Rheolwyr Cyfrifol: - Rob Williams**

**YGC-27** - Nifer Cynlluniau Llifogydd wedi cwblhau

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Pwrpas y rhaglen waith ydi leihau risg llifogydd yn Gwynedd, yn ychwanegol i uwchraddio asedau bresennol.


**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar gynllun Hirael bellach wedi'i gwblhau. Serch hynny, mae rhai elfennau'n dal i ddibynnu ar gwblhau prosiect cysylltiedig gan Dŵr Cymru.

Yn Abermaw, mae'r gwaith dylunio manwl ar gyfer Promenâd y Gogledd yn parhau i fynd rhagddo'n dda ac yn unol â'r rhaglen. Mae model ffisegol o'r cynllun wedi'i greu yn Imperial College Llundain, a bydd yn cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw effaith bosibl ar y risg llifogydd yn sgil y gwaith. Disgwylir i'r cam dylunio manwl gymryd tua dwy flynedd i'w gwblhau.

Ar hyn o bryd, mae tri chynllun lle mae'r rhaglen wedi llithro, ond nid yw hyn yn peri problemau ar hyn o bryd. Mae'r oedi yn deillio o drafodaethau parhaus gyda Dŵr Cymru.

# Gwasanaeth Cynnal a Chadw Strwythyrau




**Canran stoc ym mhob cyflwr**

| Sgôr BCI | BCI Critigol | BCI Cyfartaledd | BCI Cyfuniad |
|---|---|---|---|
| Da Iawn (90 i fyny) | 19% | 17% | 16% |
| Da (80 – 89) | 5% | 59% | 42% |
| Boddhaol (65 – 79) | 44% | 23% | 25% |
| Gwael (40 – 64) | 22% | 1% | 12% |
| Gwael Iawn (o dan 39) | 10% | 0% | 5% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** | **100%** |

**Rheolwr Cyfrifol: Owen Rhys Jones (Rheolwr Gwasanaeth Dechengol)**

**YGC-28** – Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu well (BCI Critigol)

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal raglen archwilio ac chynnal pontydd ac waliau cynnal ar y rhwydwaith ffyrdd Gwynedd. Rydym yn archwilio oddeutu 631 o bontydd dros rhaglen o 2 flynedd.

**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae'r dashfwrdd cyflwr stoc, dangosydd sgôr BCI, â ddangosir yma yn ystyried holl elfennau'r strwythur. Mae'r sgôr hwn yn cynnwys data o arolwg diweddaraf ar ein pontydd. Ystyrir bod strwythur mewn cyflwr boddhaol os yw'r sgôr BCI yn fwy na 65.

Y 'BCI Cyfartaledd' yw sgôr cyfartaledd bob elfen o'r strwythur

Y 'BCI Critigol' yw sgôr cyfartaledd o'r elfennau strwythurol yn unig

Fel y gwelir, ar y cyfan mae stoc strwythurau Gwynedd yn eithaf da, ond mae gennym sgôr llai na 65 ar ambell elfen o strwythurau.

Bydd adolygiad o'r holl strwythurau hyn yn cael ei gynnal gan beiriannydd, a bydd unrhyw bryder sy'n codi yn derbyn asesiad arbennig, a gwaith adfer priodol yn y tymor byr. Ar gyfer strwythurau â materion mwy, bydd y strwythurau'n cael eu rheoli o dan y safon ar gyfer rheoli strwythurau is-safonol hyd nes fod datrysiad yn bosib.

# Gwasanaeth Cynnal a Chadw Strwythyrau

| **Archwiliadau 2025-26** | **Nifer i'w archwilio** | **Nifer wedi eu harchwilio hyd yma** | **Fel %** |
|---|---|---|---|
| Arfon Dosbarth 1 a 2 | 52 | 0 | 0% |
| Dwyfor Dosbarth 1 a 2 | 65 | 0 | 0% |
| Meirionnydd Dosbarth 3 a Di-ddosbarth | 251 | 247 | 98.4% |
| **Cyfanswm** | **368** | **247** | **67.1%** |

**Rheolwr Cyfrifol: Owen Rhys Jones (Rheolwr Gwasanaeth Dechengol)**

**YG-29** – Canran o'r archwiliadau wedi eu cwblhau

**Pwrpas y Gwasanaeth:**

Cynnal raglen archwilio ac chynnal pontydd ac waliau cynnal ar y rhwydwaith ffyrdd Gwynedd. Rydym yn archwilio oddeutu 631 o bontydd dros rhaglen o 2 flynedd.

**Trosolwg o Berfformiad:**

Gweler rhaglen archwiliadau eleni yn y tabl, yn dangos y cynnydd ar y rhaglen hyd yma.